| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Hydref 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad**<br>**Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Vicki Robarts – Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Chwarter 1 - 2016/17** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 1 2016/17.

1.2 Mae Atodiad 1 yn rhoi Crynodeb Gweithredol sy'n cynnwys cyflawniadau ac eithriadau allweddol.

1.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchir gan y System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

1.4 Mae Atodiad 3 yn gopi o Fwletin Perfformiad Uned Ddata Llywodraeth (LGDU) ar gyfer 2015-16.

1.5 Mae Atodiad 4 yn crynhoi'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC), y bu dirywiad mewn perfformiad.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 2016-17 o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd gwasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau

ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac i hwyluso cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae'r Crynodeb Gweithredol (Atodiad 1) yn cynnwys manylion cyflawniadau yn ogystal ag eithriadau allweddol.

4.2 Mae Adroddiad Perfformiad Chwarter 1, 2016-17 (Atodiad 2) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2012-17 ac mae'n rhoi asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.

4.3 Mae eithriadau wedi eu hamlygu fel a ganlyn:
- 'Coch' ar gyfer mesurau neu ddangosyddion sydd wedi eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', neu
- 'Llwyd' lle mae angen eglurhad ar gyfer y data.

4.4 Cafodd Bwletin Perfformiad Uned Ddata Llywodraeth Leol 2015-16 (Atodiad 3) ei gyhoeddi 7 Medi 2016; dyma'r unfed bwletin ar ddeg blynyddol ar berfformiad awdurdodau lleol. Mae'r bwletin yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o wasanaethau awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a'r MAC fel dangosyddion cymaradwy.

4.5 Ar y cyfan, mae'r bwletin yn dangos bod perfformiad Cyngor Sir Ddinbych yn gadarnhaol; yn y 3ydd safle yn gyffredinol, mae meysydd lle bu dirywiad mewn perfformiad ar hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae Atodiad 4 yn rhoi crynodeb o'r dangosyddion sy'n 'dirywio' ynghyd â sylwadau gan y gwasanaethau priodol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn gosod faint o arian yn ychwanegol y mae'r Cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol dros y pum mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno gan ddefnyddio'r buddsoddiad ychwanegol hwn ac o fewn cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad Effaith ar Les o'r wefan a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**

7.1 Cynhaliwyd AEC ar y Cynllun Corfforaethol ac fe'i gyflwynwyd i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o'i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Daw’r wybodaeth sy'n angenrheidiol i lunio’r adroddiad hwn o wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi'u trafod a'u dosbarthu i alluogi Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gam unioni y maent yn ystyried yn angenrheidiol er mwyn llunio’r adroddiad hwn ar gyfer Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risg benodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a’r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai’r Cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau Archwilio mewn perthynas ag archwilio perfformiad yr Awdurdod.